**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2279/21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddClimate@senedd.wales

31 Awst 2021

Annwyl Llyr

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn darparu argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â'r Fframwaith Cyffredin Drafft ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio) yn ei lythyr dyddiedig 21 Ionawr. Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor, ochr yn ochr â rhai'r Senedd a'r deddfwrfeydd eraill, gyda'm cydweithwyr yn Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Rydym wedi diwygio testun y cytundeb i ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed. Felly, mae'n bleser gennyf amgáu'r cytundeb terfynol.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Cytunwyd bod angen mwy o eglurder yn y fframwaith o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod adolygiad cychwynnol y fframwaith. Eglurwyd hyn yn Adran 12 o destun y fframwaith, gan nodi y bydd ymgysylltu cymesur â rhanddeiliaid i lywio'r adolygiad gan gynnwys gydag awdurdodau cymwys, awdurdodau lleol, diwydiant a grwpiau amgylcheddol.

**Amseru'r adolygiad**
Cytunwyd y dylid cynnal yr adolygiad cychwynnol o'r fframwaith ar ôl blwyddyn, yn hytrach na dwy flynedd fel yr awgrymwyd yn wreiddiol. Adlewyrchwyd y newid hwn yn Adran 12 y fframwaith.

**Craffu Seneddol**
Cytunwyd bod angen cynnwys y deddfwrfeydd yn ystod yr adolygiad o'r fframwaith a dylid adlewyrchu hyn yn y fframwaith. Ychwanegwyd testun at Adran 12 o'r fframwaith i adlewyrchu hyn, gan gofio bod potensial i amrywio'r ffordd y mae pob deddfwrfa yn rhan o'r broses adolygu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Datrys Anghydfodau**
Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cytuno bod y manylion a ddarperir ar ddatrys anghydfodau yn ddigonol ar y cam hwn.

**Rhwymedigaethau Rhyngwladol**
Trafodir rhwymedigaethau rhyngwladol yn Adran 2 y fframwaith. Mae'r adran hon yn gynhwysfawr o ran rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r DU.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change